# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 23 Ionawr 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddiwallu'r galw am sgiliau gan gyflogwyr y Gogledd Ddwyrain yn y dyfodol. (WAQ45484)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw gyfarfodydd a gafodd gyda'r cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu neu hyrwyddo ynni gwynt, y casgliadau yn sgîl hynny ac unrhyw letygarwch a rhoddion corfforaethol a dderbyniwyd. (WAQ45495)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi asesu effaith Cynllun Gofodol Cymru ar dwristiaeth o gwbl.  (WAQ45497)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa mor aml y bydd Gr•p Twristiaeth Ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru'n cyfarfod ac ymhle y cyhoeddir cofnodion y cyfarfodydd hyn. (WAQ45500)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y caiff plant Casnewydd amser i ffwrdd o'r ysgol pan gynhelir Cwpan Ryder yn y ddinas yn ystod 2010. (WAQ45485).

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr hyn a wneir i warchod rhag llifogydd posibl ar Afon Gwy, Afon Wysg ac Afon Rheidol. (WAQ45496)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae newidiadau i ddangosyddion Asesiad Gwariant Safonol llywodraeth leol a luniwyd yn 2004 yn

gwella gallu awdurdodau lleol yn ardaloedd mwyaf amddifad Cymru i ddarparu ar gyfer anghenion pobl h•n.  (WAQ45486)

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBA) yn darparu cyllid teg ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru. (WAQ45487)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog nodi pob un o ffrydiau ariannu'r Cynulliad ar gyfer llywodraeth leol sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd poblogaeth neu bellenigrwydd. (WAQ45488)

**Irene James (Islwyn):** Beth yw'r addasiadau diweddaraf a wnaethpwyd i ddangosyddion fformiwla ariannu llywodraeth leol. (WAQ45489)

**Irene James (Islwyn):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella fformiwla ariannu llywodraeth leol. (WAQ45490)

**Irene James (Islwyn):** Pa dystiolaeth sydd i gefnogi'r rhagdybiaeth bod gwasanaethau'n ddrutach i'w darparu mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth. (WAQ45491)

**Irene James (Islwyn):** Ar ba sail y dyrennir pwysoliad teneurwydd poblogaeth neu bellenigrwydd yng nghyllid llywodraeth leol y Cynulliad. (WAQ45492)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae newidiadau i ddangosyddion Asesiad Gwariant Safonol llywodraeth leol a wnaethpwyd yn 2004 yn gwella'r gyfran gyllid ar gyfer amddifadedd. (WAQ45493)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae newidiadau i ddangosyddion Asesiad Gwariant Safonol ac Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion a wnaethpwyd yn 2004 wedi gwella'r fformiwla ariannu. (WAQ45494)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi asesu sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wahanol i'r rheiny yn Lloegr o ran cymorth dewisol gyda threthi busnes, ac os ydyw, a wnaiff hi gyhoeddi unrhyw fanylion. (WAQ45498)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch pa resymau a roddwyd o ran cleifion a) yn gwrthod derbyn triniaeth dan Gynllun yr Ail Gynnig, b) yn cael eu gwrthod o ran derbyn triniaeth dan Gynllun yr Ail

Gynnig. (WAQ45501)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch beth fu cost weinyddol cynllun yr ail gynnig. (WAQ45502)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch faint o arian a wariwyd ar drin cleifion ar Gynllun yr Ail Gynnig, ac a wnaiff fanylu ynghylch faint sydd wedi'i wario yn a) ysbytai'r GIG yng Nghymru, b) ysbytai'r GIG yn Lloegr, c) ysbytai preifat yn Lloegr, d) ysbytai preifat yng Nghymru. (WAQ45503)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch faint o gleifion sydd wedi a) cael eu cyfeirio at Gynllun yr Ail Gynnig, b) cael eu trin dan Gynllun yr Ail Gynnig, c) gwrthod derbyn triniaeth dan Gynllun yr Ail Gynnig, b) cael eu gwrthod o ran derbyn triniaeth dan Gynllun yr Ail Gynnig. (WAQ45504)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau, fesul ystod oedran, cyfansymiau'r boblogaeth, oriau'n darparu gofal a fesul ardal awdurdod lleol, a) nifer y gofalwyr ifanc yng Nghymru a b) nifer y gofalwyr ifanc yng Nghymru nad ydynt yn derbyn dim arian cyhoeddus ar gyfer eu swyddogaeth gofalu. (WAQ45505)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd canlyniad trafodaethau'r Gweinidog â Chyngor Sir Gwynedd o ran Cynllun Busnes y Cyfrifon Refeniw Tai (2005-06) ddiwedd mis Tachwedd 2005. (WAQ45499)